**Cofnodion Wedi Cadarnhau o**
**Gyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**13 Rhagfyr 2023, 09:30**
**a Gynhaliwyd yn 2 Capital Quarter a thros Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol:** | | |
| Diane Crone | (DC) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Kate Eden | (KE) | Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Neil Desmond | (ND) | Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eitem 4.6) |
| Sharon Hillier | (SH) | Cyfarwyddwr Sgrinio (ar gyfer eitem 3.1) |
| Wayne Jepson | (WJ) | Pennaeth Ansawdd, Ymgysylltu a Chydweithio (ar gyfer eitem 4.3) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant (ymunodd â'r cyfarfod am 10:50 am) |
| Sarah Nicol-Hughes | (SNH) | Cynrychiolydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| Olusola Okhiria | (OO) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 09:30* | | |

| | |
|---|---|
| **QSIC 18/07/20237.1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |
| Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol. | |

Cadarnhawyd

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol.

| **QSIC 2023.12.13/2** | **Datgan Buddiannau** |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a oedd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

| **QSIC 2023.12/13/3.1** | **Gweithdy: Diweddariad ar y Gwasanaethau Sgrinio** |
|---|---|

Cyflwynodd MK weithdy'r Gwasanaethau Sgrinio, a gynlluniwyd i fynd ar drywydd argymhellion adroddiad Archwilio Cymru ar adfer trefniadau'r gwasanaethau sgrinio, yn arbennig o ran strwythur adroddiadau er mwyn darparu dull clir o adrodd ar gynnydd, y risgiau sy'n gysylltiedig ag adfer a sicrwydd ynghylch darparu gwasanaethau sgrinio.

Aeth SH ymlaen i roi esboniad cryno o'r llif data ar lefel Bwrdd y Rhaglen i'r Bwrdd ac i roi diweddariad ar adfer dwy raglen sgrinio (Sgrinio'r Fron a Sgrinio Diabetig), sy'n cynnwys y cynllun adfer, taflwybr ac amserlen a'r camau gweithredu sydd ar y gweill i adfer y rhaglenni.

Yna canolbwyntiodd y Gweithdy ar drafod egwyddorion darparu gwasanaethau sgrinio rhagorol gan ddefnyddio 6 maes y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, a pha sicrwydd / tystiolaeth sydd gan y Sefydliad / sydd eu hangen ar y Sefydliad i sicrhau bod ein Gwasanaethau Sgrinio yn Ddiogel, yn Amserol, yn Effeithiol, yn Effeithlon, yn Deg ac yn Canolbwyntio ar y Cyfranogwr. Canolbwyntiodd y pwyntiau trafod ar y canlynol:

- Sut mae cael darlun o iechyd y boblogaeth a sut mae ein gwasanaethau yn rhan o broffil iechyd y boblogaeth (gan gynnwys sut mae ein gwasanaethau yn rhan o lwybrau sgrinio cyffredinol ac unrhyw gyfyngiadau allanol).
- Yr angen i roi mecanweithiau ar waith i ystyried materion a digwyddiadau thematig a systematig er mwyn cael sicrwydd ac i ddysgu ar draws y Sefydliad.
- Yr angen i ymgysylltu ag Iain Bell, Cyfarwyddwr Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus a'r tîm data i wneud gwaith modelu er mwyn rhagweld yr adferiad o gymharu â'r taflwybr a chymharu â thargedau, gan ddefnyddio system rhybudd cynnar i ddangos unrhyw wahaniaethau ac effaith.
- Y cyfle i ystyried elfennau lefelau staffio diogel (gan nodi cylch gwaith y Pwyllgor i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.
- Croesawodd SG y cyfle i'r Pwyllgor Gwybodaeth ystyried elfennau'r data a godwyd yn ystod y gweithdy.
- Cydnabod bod angen darparu naratif yn ogystal â metrigau data wrth ystyried pwysigrwydd gwasanaethau amserol, ar gyfer cyd-destun a sicrwydd.
- Gwaith modelu gwell ar y galw a'r capasiti yn erbyn cynlluniau / targedau perfformiad yn y dyfodol yn ogystal â gweithgareddau presennol. Nododd aelodau'r pwyllgor y sgyrsiau â JB ac Iain Bell ynghylch trawsnewid y

Cadarnhaodd

gwasanaeth diabetig a gwelliannau i'r broses o gynllunio'r galw a'r capasiti ar gyfer dechrau 2024.

- Yr angen i barhau i ddefnyddio technoleg newydd / arloesedd a datblygiadau, yn arbennig ym maes deallusrwydd artiffisial.
- Yr angen i fonitro'r bwlch tegwch o ran cael mynediad a'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau mewn ardaloedd o amddifadedd ac i ystyried yr ymyriadau a allai helpu i gau'r bwlch, gan ddefnyddio dull ar draws y sefydliad i ystyried sgrinio mewn ffordd gyfannol ac i archwilio'r data ar draws y llwybr cyfan.
- Ystyried adolygiadau thematig ar hygyrchedd gan ddefnyddio'r adborth a'r hyn a ddysgwyd.
- Cytundeb bod angen cael mwy o adborth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn megis straeon defnyddwyr gwasanaethau a staff a hynny'n rheolaidd mewn Pwyllgorau.

Diolchodd DC i SH a CB am y sesiwn ddefnyddiol a thrafododd y Pwyllgor y camau nesaf i ddatblygu hyn. Gofynnodd y Pwyllgor am ystyried templed drafft o'r adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2024 gan ymrwymo i adolygu'r adroddiad yn llawn yn ystod chwarter 1 2024/25.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2023.12/13/4** | **Eitemau er Sicrwydd** |
| **QSIC 2023.12/13/4.1** | **Adroddiad Gweithio i Wella (Chwarter 2, 2023-24 gan gynnwys Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol)** |

Cyflwynodd AC yr adroddiad, gan amlygu'r ffaith bod disgwyl cau un digwyddiad rhybudd cynnar gan Sgrinio Serfigol Cymru ym mis Medi 2023, ble y cofnodwyd dim niwed, ac mae gwaith yn cael ei wneud i leihau nifer yr achosion o gamgofnodi, a'r gwelliannau a'r hyn a ddysgwyd yn sgil achos y ddyletswydd gonestrwydd. Ceir awydd i greu cyfleoedd i'r cyhoedd allu rhoi canmoliaeth ac adborth.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- A holi ynghylch perfformiad Datix ac effaith y system hyd yma. Soniodd AC am y gwaith ymgysylltu a'r hyfforddiant gell a gafwyd, y gwaith sy'n cael ei wneud gyda Datix Cymru i roi gwybod am achosion a rhybuddio'r bobl gywir. Amlygodd CB y bwriad i ganolbwyntio ar wella'r broses o gau achosion a byddai hyn yn cael ei amlygu yn yr adroddiad cyffredinol nesaf.

**Camau Gweithredu: CB**

- Diolchodd MK i'r tîm Gweithio i Wella am gefnogi'r Cyfarwyddiaethau Microbioleg a Sgrinio yn y maes hwn a mynd ymlaen i holi am y gwaith sy'n cael ei wneud i annog pob cyfarwyddiaeth i ddefnyddio ac i gofnodi achosion ar Datix. Cyfeiriodd AC at y gwaith sy'n cael ei wneud gyda Chyfarwyddiaethau i sicrhau bod yr hierarchaeth yn gywir, gan nodi fod hyn yn gyfle da i dargedu ac i godi ymwybyddiaeth, yn ogystal â rhoi eglurder ychwanegol am atebolrwydd a pherchnogaeth.

Diolchodd y Pwyllgor i AC am y diweddariad a chafodd **sicrwydd** bod prosesau Gweithio i Wella yn cael eu rheoli'n effeithiol o dan arweiniad QNAHPs.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2023.12/13/4.2** | **Adroddiad ar Rybuddion (Chwarter 2, 2023/24)** |

Cadarnhawyd

Cyflwynodd AC yr adroddiad, gan amlygu dau rybudd sy'n berthnasol i'r Sefydliad yn ystod chwarter 2, 2023-24 a chadarnhau y rhoddwyd sylw i'r rhain. Amlygodd AC y ffaith nad yw'r modiwl Rhybuddion ar gael yng Nghwmwl Datix, gan ddweud y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i gryfhau'r sicrwydd ynghylch olrhain a chwblhau'r camau gweithredu ar rybuddion yn ystod 2024/25. Cytunodd AC i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar unrhyw gynnydd yn y maes hwn yn yr adroddiad cyffredinol yn y dyfodol.
**Camau Gweithredu: AC**

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Croesawodd MK adolygiad o'r system Rhybuddion a Chylchlythyr Iechyd Cymru i sicrhau trothwyon perthnasol o ran atgyfeirio a lledaenu gwybodaeth ar draws y Cyfarwyddiaethau. Aeth MK ymlaen i awgrymu y dylid adolygu rhybuddion yn systematig, a sefydlu system gadarn i sicrhau bod dulliau llywodraethu a sicrwydd priodol ar gael pan fydd angen cymryd camau gweithredu amserol. Cytunodd AC â'r dull hwn a byddai'n gweithio gyda Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Rheolwr Llywodraethu Clinigol newydd i symleiddio'r system a'r broses.

Diolchodd y Pwyllgor i AC am y diweddariad ac chafodd **sicrwydd** bod y system ddosbarthu, rheoli, monitro a chadw cofnodion am Rybuddion diogelwch / hysbysiadau diogelwch a roddir i'r sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

| QSIC 2023.12/13/4.3 | Archwiliad Ansawdd a Chlinigol (Diweddariad Canol y Flwyddyn) |
|---|---|

Cyflwynodd WJ yr adroddiad Archwiliad Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2023/24, gan amlygu bod yr archwiliadau a gynhaliwyd hyd yma wedi gwneud cynnydd da, ac ychwanegwyd 11 o archwiliadau newydd at y cynllun monitro a gwella gwasanaeth. Dywedodd WJ fod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r cais i dynnu tri archwiliad o'r cynllun oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti, a nodwyd nad oes unrhyw risg/effaith o ganlyniad i dynnu'r archwiliadau penodol hyn yn ôl a'u bod am gael eu datblygu yn ystod 2024/25. I gloi'r adroddiad, amlygodd WJ y cydweithio â'r Hyb Gwella ac Arloesedd a'r ymgysylltu â Chyfarwyddiaethau, a'r cynnydd yn y cyfleoedd hyfforddi a allai helpu i gynyddu cynrychiolaeth Cyfarwyddiaethau / Timau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y cynllun archwilio ar hyn o bryd.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Y cyfle i gynnwys archwiliadau Diogelu Iechyd sy'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau a brigiadau fel rhan o gynllun 2024/25, yn dilyn dyfodiad y cynllun brigiadau o glefydau trosglwyddadwy newydd, sy'n cynnwys safonau.
- Gan fyfyrio ar y Fframwaith Llywodraethu Clinigol a'r golofn archwilio clinigol gysylltiedig, y ffocws yn ystod 2024/25 fydd cryfhau'r cylch archwilio drwy olrhain cynlluniau gweithredu archwilio yn well.
- Awgrym i amlygu effaith archwiliadau ac i ddathlu'r hyn a ddysgwyd a'r canlyniadau fel rhan o fersiynau o'r adroddiad yn y dyfodol, gan gyflwyno'r hyn a ddysgwyd i'r Pwyllgor.

Diolchodd y Pwyllgor i WJ am y diweddariad a chafodd **sicrwydd** bod y cynllun archwilio blynyddol yn mynd rhagddo'n dda, bod archwiliadau newydd wedi'u canfod

a'u hychwanegu at y cynllun yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at ystyried yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023-24 a'r cynllun gwaith ar gyfer 2024-25 yn ystod chwarter cyntaf 2024/25.

| **QSIC 2023.12/13/4.5** | **Trefniadau ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol** |
|---|---|

Rhoddodd MK adroddiad llafar ar y trefniadau sydd ar y gweill i reoli dyfeisiau meddygol:

- Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Grŵp Rheoli Dyfeisiau Meddygol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ac wedi cyflawni'r rhan fwyaf o amcanion y cynllun gwaith ar gyfer 2023/24.
- Pwysleisiodd fod y Polisi a'r Weithdrefn wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo / er gwybodaeth tua diwedd yr agenda ac ymhelaethodd ar y gwaith sy'n cael ei wneud i greu protocol ac un storfa ar gyfer dyfeisiau meddygol.
- Soniodd am ffocws y tîm Ansawdd a Llywodraethu Clinigol i wella ansawdd cofnodi achosion sy'n ymwneud â dyfeisiau meddygol.
- Cadarnhaodd fod Rheolwr Llywodraethu Clinigol wedi cael ei benodi. Byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud gwaith y Swyddog Dyfeisiau Meddygol ar gyfer y Sefydliad yn ystod Gwanwyn 2024 ac yn gweithio gydag Arweinwyr i sicrhau bod prosesau llywodraethu ac uwchgyfeirio da yn cael eu sefydlu ar gyfer dyfeisiau meddygol. Rhan arall bwysig o'r gwaith fyddai datblygu asesiad o anghenion hyfforddi a chydymffurfiaeth ar gyfer y Sefydliad.

Diolchodd y Pwyllgor i MK am y diweddariad ar lafar a chafodd **sicrwydd** o'r diweddariad i'r trefniadau Rheoli Dyfeisiau Meddygol.

| **QSIC 2023.12/13/4.6** | **Adroddiad Iechyd a Diogelwch (Chwarter 2 2023/24)** |
|---|---|

Cyflwynodd ND yr adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer chwarter 2, gan grynhoi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch i wella cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant iechyd a diogelwch statudol a gorfodol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Nifer y digwyddiadau lle y cafwyd lefel fach o niwed yn ymwneud â dyfeisiau meddygol a'r broses o fynd ar drywydd y rhain. Byddai'r Arweinwyr Microbioleg a Sgrinio o fewn y Grŵp Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio i'r achosion hyn yn eu maes arbenigol ac yn adrodd yn ôl i'r Grŵp. Rhoddodd MK sicrwydd fod y digwyddiadau hyn wedi cael sylw a'u bod wedi'u rheoli o fewn yr isadrannau perthnasol.
- Gan fyfyrio ar y gofyniad i gydweithwyr sydd â chontractau anrhydeddus gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â hyfforddiant Statudol a Gorfodol y Sefydliad, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am sicrwydd bod system ar waith i fonitro cydymffurfiaeth, gan gwestiynu lefelau cydymffurfiaeth ymysg y garfan benodol hon o weithwyr, yn arbennig y rhai sy'n defnyddio adeiladau'r Sefydliad. Ar ôl nodi bod y maes hwn o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl, cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r mater ato i'w ystyried ymhellach a byddai'n ystyried y canfyddiadau pan fo hynny'n briodol.

**Camau Gweithredu: LB**

- Aeth PV ac AC ymlaen i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Tîm Uwch-reolwyr wedi cael y dasg o adolygu cydymffurfiaeth ar lefel Cyfarwyddiaeth ac unigolyn bob chwarter, a bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant Statudol a Gorfodol yn cael ei nodi yn swydd-ddisgrifiad cyflogeion.

Diolchodd y Pwyllgor i ND am y diweddariad a chafodd **sicrwydd** bod y mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i roi sylw i'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2023.12/13/5** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **QSIC 2023.12/13/5.1** | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod** |

Ystyriodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2023 a 12 Hydref 2023 yn eu tro a chymeradwy'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Aeth y Pwyllgor at i i ystyried y diweddariad i'r cofnod o gamau gweithredu, **cymeradwyo'r** cais i newid dyddiad, a **chymeradwyo'r** penderfyniad i gau'r camau gweithredu a gwblhawyd.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2023.12/13/5.2** | **Polisïau a Gweithdrefnau i'w Cymeradwyo** |

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol a:

- **Chymeradwyo** Gweithdrefn Rheoli Digwyddiadau Gweithio i Wella
- **Cymeradwyo** Gweithdrefn Gwyno Gweithio i Wella
- **Cymeradwyo'r** Polisi Rheoli Meddyginiaethau
- **Cymeradwyo'r** Polisi Rheoli Dyfeisiau Meddygol
- **Cymeradwyo'r** mân newid i Bolisi Caniatâd i Archwilio neu Drin Cymru Gyfan
- **Cymeradwyo'r** Polisi Dod i Gysylltiad ag Anafiadau a Rheoli Cyfarpar Miniog yn Ddiogel

| | |
|---|---|
| **QSIC 2023.12/13/6** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **QSIC 2023.12/13/6.1** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor 2023-24** |

**Nododd** y Pwyllgor y diweddariad i gynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023-24.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2023.12/13/6.2** | **Diweddariad i'r Grŵp Cofnodi** |

**Nododd** y Pwyllgor y Diweddariad i'r Grŵp Cofnodi ac i Gylch Gorchwyl is-grwpiau perthnasol (Atal a Rheoli Heintiau (IPC), Diogelu ac Iechyd a Diogelwch).

| | |
|---|---|
| **QSIC 2023.12/13/7** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
| **QSIC 2023.12/13/7.1** | **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |

Gofynnwyd i'r aelodau i e-bostio LB gydag unrhyw adborth ar gyfarfod y Pwyllgor.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 21 Chwefror 2024.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.

*Daeth y sesiwn agored i ben am 12:20*

Cadarnhaodd

Cadarnhaodd